PEIRIANNEG

Ar ôl graddio mewn Peirianneg, fel arfer byddwch yn gallu:

- Deall cysyniadau, egwyddorion a damcaniaethau a ffeithiau hanfodol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth beirianneg arbenigol o'ch dewis, a deall y cyfyngiadau perthnasol wrth i chi arfer eich barn.
- Bod â dealltwriaeth gadarn o wyddoniaeth, mathemateg a'r sail dechnolegol sy'n berthnasol i'ch disgyblaeth. Mae'n ddymunol bod gennych rywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau busnes a rheoli.
- Deall eich cyfrifoldebau proffesiynol a moesegol ac effaith datrysiadau peirianneg mewn cyd-destun byd-eang a chymdeithasol. Bydd gennych hefyd ymwybyddiaeth o faterion cyfoes.
- Bod yn greadigol, yn ddadansoddol ac yn arloesol wrth ddatrys problemau ac wrth ddylunio systemau, cydrannau a phrosesau. Byddwch yn gallu cymhwyso'r offer priodol mathemategol, gwyddonol a thechnolegol, gan gyplu'r rhain â gallu proffesiynol.
- Datrys problemau peirianneg, yn seiliedig yn aml ar wybodaeth gyfyngedig.
- Dadansoddi a dehongli data a, phan fo angen, cynllunio arbrofion i gael data newydd; dylunio system, cydran neu broses i ateb y diben.
- Gwerthuso dyluniadau, prosesau a chynhyrchion a gwneud gwelliannau.
- Cynnal agwedd ddamcaniaethol gadarn er mwyn cyflwyno technoleg newydd a datblygol i wella arferion presennol.
- Cymryd agwedd holistaidd, cymhwyso barn broffesiynol, cydbwyso costau, buddion, diogelwch, ansawdd, dibynadwyedd, ymddangosiad ac effaith amgylcheddol.
- Asesu risgiau a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny.
- Defnyddio ystod eang o offer, technegau a chyfarpar, gan gynnwys meddalwedd berthnasol: defnyddio cyfarpar labordy a gweithdy i gynhyrchu data gwerthfawr.
- Datblygu, hyrwyddo a chymhwyso systemau gweithio diogel.
- Cyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr ac eraill.
- Defnyddio TG yn effeithiol.
- Rheoli adnoddau ac amser a gweithio mewn tîm amlddisgyblaeth.
- Ymgymryd â dysgu gydol oes, yn enwedig ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Bod yn hunanddisgybledig, brwdfrydig, yn barod i holi ac yn awyddus i wybod a deall mwy.
- Bod yn awyddus i ddefnyddio'ch gwybodaeth a'ch sgiliau wrth ymarfer peirianneg.

Sources:

Cipolwg ar Beirianneg

Mae Peirianneg yn golygu cymhwyso dealltwriaeth, gwybodaeth, sgiliau a gallu egwyddorion gwyddonol, mathemategol a thechnegol mewn cyd-destun busnes er mwyn cael ateb economaidd.